


## Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at ddau sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef Norman Hughes (Groes) a Gwyneth Wynne (Henllan). Yr ydym yn cyflwyno'r ddau, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Miss W J Roberts, Mrs Menna Owen a Mrs Annie Griffiths (Yr Hen Ddeondy); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy); Mrs Morfydd Williams (Southern House) a Mrs Susannah Williams (Coed Môr). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan obeithio eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

## Detholiadau



Os hoffech gael copi o Raglen Cymanfaoedd Canu 2012-2013 (Hen Nodiant a/neu Sol-ffa), rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul **HEDDIW** os gwelwch yn dda. Pris: £1.35

(Arolygwyr: Wnewch chi roi eich archeb i Mair erbyn dechrau'r wythnos, os gwelwch yn dda?)

## I ddod

- **Cyfarfod Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** nos Fercher, Hydref 17eg am 7.00 yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele yng nghwmni Elinor Owen fydd yn siarad am y Rhaglen 'Dorcas'.
- **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** nos Iau, Hydref 25ain am 7:00 yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan yng nghwmni Hywel Meredydd, Tearfund, fydd yn siarad am ei daith i Peru.
- **Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Cefn Berain** nos Wener, Hydref 26ain am 7.00. Gwasanaethir gan y Parch. Eifion Jones.
- **Oedfa'r Fro Arbennig** yn Llansannan yng nghwmni Meirion a Sarah Morris nos Sul, Hydref 28ain am 6.00.
- **Gŵyl Ddiolchgarwch Cefn Meiriadog** - Cyfarfod Gweddi yn y Ffestri nos Lun, Hydref 29ain am 7.00. Dydd Mawrth, Hydref 30ain bydd y Parch. Tom Williams, Henllan yn arwain. Ceir gwasanaeth teuluol am 2 o'r gloch, a gwasanaeth yr hwy am 7.00. Croeso cynnes i bawb.

## Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 7<sup>fed</sup> Hydref 2012

Sylwch fod  
y grwpiau Adnabod yn  
ail-gychwyn nos Fercher yma!

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Glywsoch chi am yr 'Ystafell Fyw'? Enw da ar ganolfan newydd sy'n helpu pobl i gael adferiad ydyw ac mae Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau eraill wedi llunio gwasanaeth arbennig i nodi Sul Adferiad heddiw. Gwn fod nifer ohonoch wedi cefnogi'r gwaith pwysig yma yn barod a byddwn yn gweddïo dros bobl sy'n gaeth – a'r rhai sy'n byw o ddydd i ddydd yn rhydd – gyda'n gilydd heddiw.

Yn y gwasanaeth a drefnwyd y mae'r weddi hon a all fod o help i ni:

*"Molwn Di, O Arglwydd ein Craig a'n Prynwr, am dy gariad hael sy'n gallu ein trawsnewid ac am gael profi'r cariad yma yn Iesu o Nasareth, a groeshoeliwyd ac a atgyfodwyd.*

*Dysg i ni beidio â llethu ein hunain gyda'n holl ofalon a dysg ni i ymddiried ynot a rhoi ein bywyd yn gyfan i'th ofal tyner Di.*

*Gweddiwn dros ein gilydd, yn deulu, ffrindiau, cymdogion a chyd-aelodau ar i ni dyfu mewn perthynas o gariad â'n gilydd wrth dyfu i'th adnabod Di. Felly y gallwn wneud dy ewyllys trwy gario beichiau'n gilydd, cynnal a chefnogi'n gilydd.*

*Gweddiwn dros ein cymdeithas a phawb sy'n teimlo pwysau bywyd yn cau amdanynt drwy ddiweithdra, siomedigaethau, afiechyd, pryderon ac ofnau. Deled dy deyrnas, O Arglwydd, yng ngrym dy gariad a'th faddeuant, dy gymod a'th gyfiawnder yn Iesu Grist." Amen.*

Mae'r 'Stafell Fyw' eisoes wedi cynnig gobaith i 150 o bobl trwy gynnig lle tawel, diogel, anfeirniadol i bob un sydd am gychwyn cerdded llwybr adferiad neu barhau ar y daith o ddibyniaeth tuag at lawnder bywyd ac iachad. Er mai yng Nghaerdydd y mae'r ganolfan, y nod yw lledu'r gwasanaeth i rannau eraill o Gymru yn y dyfodol.

Dymunwn yn dda i'r gwaith gan sylweddoli nad ydi'r profiad o fod yn gaeth wedi ei gyfyngu i'r rhai sydd ar gyffuriau neu alcohol yn unig. Rydym, pob un ohonom, yn gaeth i'n pechod a'n heuogrwydd a dim ond gwaith gras Duw a'i Ysbryd yn y galon sydd yn gallu dod â ni i ryddid go iawn:

*'Felly os ydy'r Mab yn rhoi eich rhyddid i chi byddwch yn rhydd go iawn!'*

Gweddiwn dros ein hunain hefyd felly, ein bod ninnau yn dod i brofi y rhyddid – a gorfoledd – y bywyd llawn sydd yng Nghrist. Addolwn mewn diolchgarwch a llawenydd heddiw, fel caethion a gafodd eu rhyddhau!

*Aneurin*

## Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf i:

Mair – ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,

Rhodri – ✉ [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i

Aneurin – ✉ [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mercher • Grwpiau **Adnabod** yn ail-gychwyn. Bydd grŵp newydd arall yn cychwyn cyn hir. Os oes gennych ddi-ddordeb, cysylltwch â Mair, os gwelwch yn dda.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.  
• **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elinor Owen, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth Cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher Cyfarfod Diolchgarwch yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.00 gyda'r Parch John Lewis Jones yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Gwasanaeth Diolchgarwch plant Ysgol Bro Aled yng Nghapel Coffa Henry Rees am 2.00. Croeso cynnes i bawb.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Mawrth Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Nantglyn a'r Groes yn mynd ar daith i Eglwys Llandegla ac i weld y ffynnon. Cyfarfod yn Llandegla am 6.30.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Mawrth Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Nantglyn a'r Groes yn mynd ar daith i Eglwys Llandegla ac i weld y ffynnon. Cyfarfod yn Llandegla am 6.30.
- Gwener Cyfarfod Diolchgarwch yng Nghapel Peniel am 7.00 gyda'r Parch Gareth Edwards yn pregethu.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yn Saron am 10.00. Gwerthfawrogir rhoddion at y Banc Bwyd, os gwelwch yn dda. Ym Mheniel, bydd Cyfarfod Gweddi am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.30 a bydd cinio yn dilyn y gwasanaeth pryd y derbynnir cyfraniadau yn ddiolchgar tuag at Apêl Guatemala. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd y Parch Trefor Lewis yn arwain oedfa yno am 2.00.
- Llun Cyfarfodydd Diolchgarwch Henllan. Bydd gwasanaeth y prynhawn am 2.00 yng ngofal plant Ysgol Henllan a Rhodri Glyn a bydd y casgliad tuag at yr Ambiwlans Awyr yn ôl dymuniad yr ysgol, ac yna bydd oedfa'r hwyr am 7.00 gyda'r Parch Gerallt Lloyd Ifan, Bodorgan yn pregethu.
- Mawrth Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Nantglyn a'r Groes yn mynd ar daith i Eglwys Llandegla ac i weld y ffynnon. Cyfarfod yn Llandegla am 6.30.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. Irfon Parry yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Rhaghysbys** **Yn ystod oedfa'r bore dydd Sul, Hydref 21ain, fe fydd aelodau Capel Llanefydd yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.**